

Natur Drws Nesaf

Ymgysylltu cymunedol amlieithog

Adnabod yr angen

Mae 'iaith gymunedol' yn un y mae pobl yn ei siarad ochr yn ochr â phrif iaith gwlad neu ranbarth. Gelwir y rhain hefyd yn 'ieithoedd ased', 'ieithoedd treftadaeth', 'iaith gyntaf', 'mamiaith' neu dermau eraill – mae'n ddefnyddiol gwybod hyn os ydych chi'n gwneud rhywfaint o ymchwil eich hun.

Mae tua 300 o ieithoedd yn cael eu siarad yn y DU. Ni allwn gyfieithu popeth.

Yn gyntaf, mae angen i chi wybod pa ieithoedd sy'n cael eu siarad yn eich cymuned. Gallwch ddefnyddio data cyfrifiad a sefydliadau cymunedol lleol.

Nid cyfieithu yw'r nod

Gan ei bod yn amhosibl cyfieithu popeth air am air, yn lle hynny edrychwch ar y syniad o "ddechongli diwylliannol". Mae hyn yn helpu pobl i deimlo'n fwy cyfforddus ac ymgysylltu.

Rydych chi'n gwneud hyn drwy ffurfio partneriaeth â'r canlynol:

- Arweinwyr cymunedol lleol
- Staff neu wirfoddolwyr dwyieithog
- Sefydliadau cymunedol lleol – yn aml yn lleol iawn, fel [yr enghraifft hon](#) gan Barnet. Ni allwn eu rhestru i gyd, felly bydd angen i chi wneud ychydig o ymchwil eich hun
- Llywodraeth leol
- Sefydliadau addysgol – er enghraifft, mae "Multilingual Manchester" yn cynnig myfyrwyr sy'n gwirfoddoli fel cyfieithwyr.

Gall y bobl hyn eich cyngori chi ar sut i gyfathrebu gwybodaeth mewn ffordd ddiwylliannol briodol.

- A fyddai'n haws creu graffeg gwybodaeth yn hytrach na chyfieithu rhywfaint o destun?
- Allwch chi gynnal cyfarfodydd neu ddiwyddiadau iaith-benodol?
- Allwch chi ddarparu sawl ffordd i bobl ymateb i chi?

Cofiwch fod gan bobl amrywiaeth o gryfderau yn aml. Os mai Saesneg yw eu hail iaith, efallai eu bod yn dda iawn am wrando a deall, ond yn cael anhawster siarad neu ysgrifennu. Yn aml, mae pobl yn gallu darllen Saesneg yn well nag y gallant ei ysgrifennu. Gan feddwl am hynny, allwch chi gynhyrchu gwaith ysgrifenedig mewn Saesneg syml neu glir, ond cynnig ffyrdd iddynt gysylltu â chi nad ydynt yn dibynnu ar



Natur Drws Nesaf

ysgrifennu? Os ydych chi'n cynnal sesiwn ar-lein, beth am gael ystafelloedd grŵp iaith-benodol?

Os ydych chi'n gweithio gyda rhywun sy'n gyfieithydd, edrychwch arno fel partner gweithredol. Anogwch ef neu hi i weithio gyda chi a rhoi'r rhyddid iddo gyfathrebu mewn ffordd sy'n naturiol i'r gynulleidfa honno.

Os oes gennych chi gyllideb

- Allwch chi gael cyfieithydd ar y pryd mewn cyfarfod neu ddiwyddiad?
- Allwch chi gynnwys capsiynau caeedig ar gyfer cyfarfodydd rhithwir?
- Oes angen dehonglydd iaith arwyddion arnoch chi?

Cofiwch!

Mae hyn i gyd yn cymryd amser, yn union fel unrhyw ymgysylltu cymunedol. Addaswch a diwygio wrth fynd yn eich blaen, a gofynnwch am adborth er mwyn i chi allu gwneud newidiadau.

Does dim un ateb unigol i hyn, felly cofiwch sicrhau eich bod yn cael eich arwain gan eich cymuned benodol a'i hanghenion.

